**EITEM AR YR AGENDA: 7**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**2 Rhagfyr 2014**

# GOSTYNGIAD PELLACH YN NIFER SWYDDI SWYDDOGION GWEITHREDOL SY'N DARPARU GOFAL 24 AWR

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybodaeth ychwanegol, y gofynnwyd amdani, i'r aelodau ynglŷn â goblygiadau posibl gostwng nifer swyddi swyddogion gweithredol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## Cefndir

2 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn gweithredu'r System Rheoli Digwyddiadau (*Incident Command System (ICS)),* - system sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol. Y system hon sy'n diffinio lefelau'r rheolaeth sydd ei hangen er mwyn cael systemau gwaith diogel ac effeithiol mewn digwyddiadau ar yr ochr weithredol.

3 Caiff y lefelau hyn eu gweithredu drwy dair haen o reolaeth – strategol, tactegol a gweithredol – sy'n cael eu defnyddio yn ôl graddfa a chymhlethdod pob digwyddiad. Yn GTAGC, uwch swyddogion sy'n darparu'r elfen strategol, a swyddogion ar lefel rheolaeth ganol sy'n darparu'r elfennau tactegol a gweithredol.

## Gwybodaeth

4 Yn 2011, ar ôl dadansoddi cyfraddau digwyddiadau a'u cysoni gyda'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y tanau, cafodd nifer y swyddogion sydd eu hangen i weithredu'r system rheoli digwyddiadau yn ddiogel ei lleihau o 40 i'r 32 presennol. Mae hyn yn darparu ar gyfer 2 swyddog tactegol a 5 swyddog gweithredol i fod ar gael bob amser. Yn ôl dadansoddiad ychwanegol yn 2014 mae modd gostwng hyn ymhellach i 28 o swyddogion.

5 Mae swyddogion sy'n cael eu cyflogi i weithredu'r system gorchymyn digwyddiadau hefyd yn gweithio mewn rôl reolaeth yn y sefydliad. Gellir ystyried pob rôl yn bwysig yng ngweithrediad y Gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'n dilyn yn anochel y bydd unrhyw ostyngiad pellach yn nifer y swyddogion nid yn unig yn gostwng nifer y swyddogion sydd ar gael i weithredu'r system rheoli digwyddiadau yn ddiogel, ond bydd angen hefyd ymdrin â'r materion capasiti sy'n codi o ganlyniad i golli eu rolau rheolaeth hefyd.

6 Efallai y bydd modd dyrannu'r swyddi rheoli y cyfeirir atynt uchod i staff sydd ar amodau rôl anweithredol, ond byddai hyn yn golygu creu swyddi anweithredol newydd, a byddai hynny'n lleihau lefel yr arbedion.

7 Mae dadansoddiad o broffil ymddeol y cnewyllyn presennol o swyddogion yn dangos mai prin yw'r posibilrwydd o wneud lefel isel, hyd yn oed, o ostyngiad yn nifer y swyddogion heb orfod ystyried diswyddiadau gorfodol. Bydd yr Aelodau'n cofio nad oes cynllun diswyddiadau gwirfoddol na gorfodol yn bodoli ar gyfer y grŵp yma o staff.

8 Gan dderbyn bod risgiau a materion sylfaenol i'r Awdurdod, cyngor y Prif Swyddog Tân yw bod modd lleihau'r cnewyllyn swyddogion o 32 i 28 a pharhau i gynnal system hyfyw i reoli digwyddiadau. O symud ymlaen fel hyn, byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i osgoi diswyddiadau gorfodol.

9 Mae'r Prif Swyddog Tân yn dweud hefyd y bydd unrhyw ostyngiad pellach yn nifer y swyddogion y tu hwnt i'r ffigwr o 28 yn creu risg annerbyniol i'r Awdurdod ac i ddiogelwch y staff gweithredol sy'n cymryd rhan mewn digwyddiad.

10 Mae’r tabl isod yn rhoi crynodeb o’r tri opsiwn sydd ar gael i’r aelodau:

| Opsiwn | Gwerth arbedion (y flwyddyn) | Lefel y risg | Posibilrwydd o ddiswyddiadau gorfodol? |
|---|---|---|---|
| Cadw 32 o swyddi rheolwyr canol | £0 | Canolig | Na |
| Gostwng nifer swyddi rheolwyr canol i 28. | Tua £250,000 | Canolig | Oes |
| Gostwng nifer swyddi rheolwyr canol i 24. | Tua £500,000 | Eithriadol uchel | Oes |

**Argymhelliad**

11 Bod yr aelodau’n penderfynu, yng nghyd-destun gosod y gyllideb ar gyfer 2015-16, a ydynt yn dymuno gostwng nifer y swyddi swyddogion gweithredol ar rota’r System Rheoli Digwyddiadau o 32 i 28.